COLEG CAMBRIA

# NODAU STRATEGOL

## 2025 - 2030

YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR

CANOLBWYNTIO AR BOBL A DYSGWYR

GWELLA'N BARHAUS

CYMRAEG 2050

Cymraeg

DIWYLLIANT CYNALIADWYEDD

GWNEUD Y MWYAF O'R TECHNOLEGAU SY'N DOD I'R AMLWG

# NODAU STRATEGOL

2025 - 2030

COLEG CAMBRIA

## DATGANIAD CENHADAETH

“Rydym yn creu dyfodol mwy disglair drwy ragoriaeth mewn addysg, drwy feithrin sgiliau a gwybodaeth dechnegol mewn amgylchedd gefnogol ac arloesol.”

## GWELEDIGAETH

“Rhagori ar ddisgwyliadau drwy addysg, arloesedd ac ysbrydoliaeth.”

# “COLEG CAMBRIA YDY’R LLE I MI”
## - EIN GWERTHOEDD

### Cynhwysiant

mae parch, caredigrwydd, gwaith tîm ac adeiladu cymunedol yn rhan o bopeth a wnawn.

### Uniondeb

rydym yn gwneud y peth iawn ac yn cyfathrebu’n eglur, agored a gonest wrth adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasau cadarnhaol.

### Arloesedd

rydym yn hyrwyddo ac yn annog arloesedd, syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio.

### Ysbrydoli

rydym yn dîm sy’n cefnogi, cydweithio ac yn frwdfrydig ac yn ymdrechu am ragoriaeth ac yn annog llwyddiant.

### Gwella

rydym yn gweld gwerth mewn cydweithio a chynaliadwyedd gan annog datblygiad ac ysbrydoli eraill i wella a chyflawni eu llwyr botensial.

# EIN NODAU STRATEGOL AR GYFER 2025-2030

**Mae ein nodau strategol yn darparu cyfres o feysydd allweddol i ni a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae pob nod yn cynrychioli'r hyn sy'n sylfaenol bwysig i'r Coleg ac yn cynorthwyo Cambria i weithio tuag at nodau cyffredin.**

## CANOLBWYNTIO AR BOBL A DYSGWYR



Ein nod yw sicrhau bod y coleg yn lle gwych i ddysgu a gweithio.

Byddwn yn parhau â'n dull cydweithredol, gan weithio gyda phartneriaeth gymdeithasol, cyflogwyr a rhanddeiliaid cymunedol i gyfrannu at greu dyfodol mwy disglair.

Drwy fod yn sefydliad angor yn ein cymunedau, byddwn yn ymgysylltu'n weithredol â nhw i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n gyson, gan helpu i gefnogi twf a ffyniant.

O fewn cymuned ein coleg byddwn yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant a byddwn yn meithrin diwylliant o degwch, perthyn a chynhwysiant. Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth o'r radd flaenaf, yn hyrwyddo ehangu cyfranogiad ac yn gwerthfawrogi llais y dysgwyr.

Ar gyfer ein cydweithwyr, byddwn yn blaenoriaethu "gwaith da", paratoi ar gyfer rolau yn y dyfodol, datblygu sgiliau newydd, ymdrechu am berfformiad uchel, cefnogi datblygiad proffesiynol a chofleidio trawsnewid digidol.

## YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR



Ein nod yw creu partneriaethau ystyrlon a pharhaol gyda chyflogwyr sy'n creu cyfleoedd i ddysgwyr, yn cryfhau datblygiad gyrfa ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd ehangach.

Byddwn yn cydweithio â chyflogwyr a phartneriaid yn y diwydiant i sicrhau bod ein cwricwlwm yn berthnasol, yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion y farchnad lafur sy'n esblygu. Mae hyn yn cynnwys darparu datblygiad sgiliau o ansawdd uchel, profiad gwaith ystyrlon a phrentisiaethau.

Byddwn hefyd yn sicrhau cyfleoedd dilyniant sy'n rhoi'r sgiliau hanfodol a'r hyder sydd eu hangen ar ein dysgwyr i lwyddo mewn cyflogaeth ystyrlon a gyrfaoedd gydol oes.

Drwy feithrin perthnasoedd cadarn, ymddiriedus gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill, byddwn yn helpu dysgwyr i archwilio llwybrau gyrfa amrywiol, tra hefyd yn cefnogi busnesau i gael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt i dyfu ac arloesi.

Drwy gyd-greu a chyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr, byddwn yn sicrhau bod ein darpariaeth yn adlewyrchu safonau'r diwydiant, newid technolegol a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi gynaliadwy yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn datblygu cynnig gwerth clir i gyflogwyr sy'n hyrwyddo arloesedd, addasrwydd a gwelliant parhaus yn y ffordd rydym yn darparu atebion hyfforddiant a sgiliau.

## GWELLA'N BARHAUS



Ein nod yw, ym mhob agwedd ar fywyd coleg, y byddwn yn rhoi  ansawdd, adfyfyrio ac arloesedd wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Bydd ethos gwelliant parhaus yn sicrhau y gallwn ymateb yn gadarnhaol i newid, rhagweld heriau newydd a chynnal safonau uchel i ddysgwyr, cydweithwyr a chymunedau.

Byddwn yn ymgorffori diwylliant o hunanwerthuso, cydweithio a dysgu ar y cyd sy'n annog cydweithwyr a dysgwyr fel ei gilydd i gyfrannu atebion ar gyfer gwelliant.

Drwy ddefnyddio meincnodau allanol, arfer gorau ac arloesedd ar draws y sector, byddwn yn mireinio ac yn gwella'r ffordd rydym yn darparu addysg a'n gwasanaethau cymorth. Bydd yr ymrwymiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r cwricwlwm i gynnwys ein pobl, ein hadnoddau, a'r amgylchedd.

Byddwn yn buddsoddi mewn dysgu proffesiynol, trawsnewid digidol ac yn diogelu ein cyfleusterau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau bod ein hystafelloedd dosbarth, ein gweithdai a'n mannau cymdeithasol yn adlewyrchu anghenion sy'n esblygu.

Drwy adfyfyrio agored a phartneriaethau cadarn, byddwn yn hyrwyddo rhagoriaeth ac yn sicrhau bod profiad pob dysgwr yn cael ei wella ac yn cyfrannu at lwyddiant personol a ffyniant ein cymunedau a'r economi leol a chenedlaethol.

## CYMRAEG 2050




Ein nod yw hyrwyddo a gwreiddio'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn weithredol ledled cymuned y coleg a chyfrannu at Gymru ffyniannus.

Byddwn yn cynyddu cyfleoedd dwyieithog ac yn dathlu hunaniaeth unigryw Cymru ar draws holl safleoedd y coleg drwy ein digwyddiadau, ein cyfathrebu a'n gweithgareddau ehangach.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i'n cydweithwyr, dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r ddarpariaeth ddwyieithog yn yr ystafell ddosbarth, ehangu cyfleoedd i ddysgwyr astudio a chael eu hasesu yn y Gymraeg a chefnogi cydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith eu hunain.

Drwy gydweithio â phartneriaid fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyflogwyr ac awdurdodau lleol, byddwn yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg.

## DIWYLLIANT CYNALIADWYEDD



Ein nod yw ymgorffori cynaliadwyedd fel egwyddor graidd ar draws pob agwedd ar fywyd coleg, gan sicrhau y gall dysgwyr a chydweithwyr gyfrannu'n gadarnhaol at economi fwy gwyrdd.

Byddwn yn cydbwyso cyfrifoldeb amgylcheddol a gwydnwch ariannol i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn hyblyg, yn effeithlon ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.

Drwy flaenoriaethu arferion cynaliadwy yn amgylcheddol ar draws ein safleoedd coleg, byddwn yn lleihau ein heffaith ar y blaned. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau sy'n effeithlon o ran ynni a chanolbwyntio ar gaffael cynaliadwy a rheoli adnoddau'n gyfrifol.

Yn ogystal, byddwn yn meithrin diwylliant o gynaliadwyedd drwy ein cwricwlwm, partneriaethau cyflogwyr a chymunedau lleol, gan sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â materion newid hinsawdd.

## GWNEUD Y MWYAF O'R TECHNOLEGAU SY'N DOD I'R AMLWG



Ein nod yw manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan drawsnewidiadau digidol i wella dysgu, addysgu, a'r profiad coleg cyffredinol.

Byddwn yn ymgorffori arloesedd digidol yn ein cwricwlwm, gan sicrhau bod dysgwyr yn ennill yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu mewn byd sy'n cael ei gymell gan dechnoleg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial, technolegau trochol a dulliau asesu modern i gefnogi dysgu, symleiddio llwyth gwaith a pharatoi myfyrwyr ar gyfer gweithle'r dyfodol.

I gydweithwyr, byddwn yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n cynyddu hyder wrth fabwysiadu ac addasu i dechnolegau newydd.

Byddwn yn hyrwyddo cynhwysiant digidol i bob dysgwr, gan sicrhau mynediad a chefnogaeth waeth beth fo'u cefndir.

Drwy gysylltiadau cadarn â chyflogwyr, diwydiant, a phartneriaid technoleg, byddwn yn rhagweld tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn eu hintegreiddio i'n darpariaeth, gan osod y coleg ar y blaen o ran arloesi mewn addysg a sgiliau.

COLEG CAMBRIA

# NODAU STRATEGOL

2025 – 2030

WWW.CAMBRIA.AC.UK